

## AXELOS Rhithwir Ar-lein - Ymarferydd PRINCE2® (7ed Argraffiad)



### Yn gwyno

Os ydych yn awyddus i feddu ar sgiliau o'r radd flaenaf yn ymwneud â rheoli prosiectau, neu os ydych eisiau gwella eich siawns o gael gwaith fel rheolwr prosiectau proffesiynol, mae ennill cymhwyster PRINCE2 yn hanfodol oherwydd dyma'r dull a roddir ar waith amlaf drwy'r byd yn y maes Rheoli Prosiectau.

Mae cymwysterau PRINCE2 o fudd i unigolion a sefydliadau. Fel unigolyn, bydd cymwysterau o'r fath yn gwella eich cyflogadwyedd a'ch rhagolygon gyrfa yn gyffredinol; a bydd sefydliadau sy'n rhoi methodoleg PRINCE2 ar waith yn elwa ar allu hwyluso prosiectau llwyddiannus yn gyson, gyda'u gweithwyr yn defnyddio iaith gyffredin a phrosesau pendant.

Mae'r cwrs hwn ar gael fel rhan o Gyfrif Dysgu Personol (PLA). Mae PLA yn fenter gan Lywodraeth Cymru sy'n cynnig cyfle i bobl gael mynediad at gyrsiau rhan-amser, rhad ac am ddim sydd â ffyrdd hyblyg a chyfleus o ddysgu sy'n addas i'w ffordd o fyw presennol.

**Mae'r cwrs hwn ar gyfer...**

## TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

... unrhyw un sydd dros 19 oed, yn byw yng Nghymru, mewn cyflogaeth ac yn ennill llai na £32,371 y flwyddyn

... unrhyw un sydd eisiau gwella'i gyflogadwyedd ar gyfer rôl yn y maes rheoli prosiectau

... darpar reolwyr prosiectau/rheolwyr prosiectau presennol neu weithwyr proffesiynol sy'n rheoli prosiectau. Mae hefyd yn berthnasol i weithwyr allweddol eraill sy'n gysylltiedig â chynllunio a chyflawni prosiectau

### Cynnwys y cwrs

Cyflwynir y cwrs hwn gan ystafell ddosbarth rithwir. Mae ystafelloedd dosbarth rhithwir yn cyfateb i gyrsiau ystafell ddosbarth wyneb yn wyneb, ond yn cael eu cyflwyno mewn amgylchedd ar-lein.

Hyd y Cwrs: 2 ddiwrnod

Trwy gydol y cwrs byddwch yn dysgu'r canlynol:

Mae cyrsiau Rheoli Prosiect PRINCE2 o fudd i unigolion yn ogystal ag i sefydliadau. Bydd y cymwysterau yn eich helpu chi a'ch sefydliad i redeg yn fwy effeithiol a sicrhau bod eich prosiectau'n cael eu cyflawni'n fwy effeithlon.

Buddiannau i'r unigolyn

Dysgwch safon de-facto'r DU ar gyfer rheoli prosiectau.

Yn cael ei gydnabod ledled y byd.

Rhowch hwb i'ch hyder wrth reoli prosiectau.

Gwella eich cyflogadwyedd a'ch rhagolygon gyrfa.

Mae PRINCE2 yn rhagofyniad ar gyfer llawer o rolau swyddi Rheoli Prosiect, yn enwedig ar lefel Rheolwr Prosiect.

Manteision i sefydliad

Gallu hwyluso gweithrediad llwyddiannus a mabwysiadu methodoleg PRINCE2.

Siarad a deall iaith rheoli prosiect gyffredin.

Cael dealltwriaeth glir o'r prosesau, rheolaethau, rolau a chyfrifoldebau diffiniedig.

Defnyddio dull cyson i hwyluso prosiectau llwyddiannus, bob tro.



# TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

## Gofynion Mynediad

I ddechrau astudio cymhwyster Ymarferydd PRINCE2, bydd angen i chi fod wedi pasio naill ai cymhwyster Sylfaen PRINCE2 (Argraffiad 6ed neu 7fed Argraffiad), neu bydd angen i chi fod wedi llwyddo yn un o'r canlynol:

Cydymaith Ardystiedig mewn Rheoli Prosiectau (CAPM)  
Gweithiwr Rheoli Prosiect Proffesiynol (PMP)  
IPMA Lefel A, B, C, neu D

Bydd angen i chi gael mynediad at gyfrifiadur gyda camera a meicroffon a WI-FI.

## Gwybodaeth Ychwanegol

Bwriad y rhaglen PLA yw darparu cyngor ac arweiniad gyrfa o safon i gyfranogwyr cyn, yn ystod ac ar ôl eu dysgu.

Cyn i chi gofrestru ar eich cwrs a ariennir gan PLA, bydd cynllun dysgu unigol yn cael ei drafod gyda chi i sicrhau bod y dysgu cywir wedi'i ystyried.

Apply online at [www.coleggwent.ac.uk](http://www.coleggwent.ac.uk)

[studentrecruitment@colegwent.ac.uk](mailto:studentrecruitment@colegwent.ac.uk) | 01495 333777 (Croesawn alwadau yn Gymraeg)

